BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **WEDI'U CADARNHAU**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGWESTY'R CONRAH, RHYDGALED, ABERYSTWYTH DDYDD GWENER 7 TACHWEDD 2008

Yn bresennol:

Aelodau o'r Cyngor Cynulleidfa

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Andy Carter
Dafydd Whittall
Alex McMillan
Nicola Branson
Jane James
Carl Cooper
Sangeet Bhullar
Arun Midha

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni, Saesneg
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni, Cymraeg a Chyfryngau Newydd
Cath Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Suzanne Hay, Rheolwr Addysg a Chymunedol, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (ar gyfer eitem 82)

Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC, staff.

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Siôn Brynach, Cynghorydd Atebolrwydd, Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwyydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd, Cymru Wales
Jared Walters, Cynorthwyydd Tîm, Llywodraethu ac Atebolrwydd, Cymru Wales.

76. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Teresa Rees
Roy Grant
Dennis Gethin
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd, BBC Cymru Wales.

77. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Rhaglen Jonathan Ross ar Radio 2

Trafododd y Cyngor yr achlysuron pan dorrwyd y rheolau golygyddol ar raglen Jonathan Ross ar Radio 2 yn ddiweddar, a gwahoddwyd sylwadau. Ailadroddodd aelodau'r Cyngor rai o'r sylwadau yr oeddent wedi'u clywed gan aelodau o gynulleidfaoedd y BBC ac roedd consensws fod sylwadau Jonathan Ross wrth Andrew Sachs yn ddi-chwaeth ac anweddus, a'u bod yn sarhaus. Roedd teimlad fod ei gyflog wedi bod yn gatalydd a achosodd i'r stori fynd yn fwy ac yn fwy. Pwysleisiodd y Cyngor fod aelodau o'r gynulleidfa, ym mhob un o'i gyfarfodydd cyhoeddus a'i ddigwyddiadau maes dros y misoedd diwethaf, wedi mynegi pryder ynglŷn â maint cyflog Ross, er bod llawer ohonynt yn hoffi ei arddull 'grafog'.

Pwysleisiodd y Cyngor fod llawer o aelodau'r gynulleidfa wedi ystyried y stori'n bennaf fel un a gafodd ei gorbwysleisio gan y wasg, ac mai dim ond llond dwrn o bobl a oedd wedi cwyno i ddechrau. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn cydnabod hefyd y bu'r BBC yn araf i ymateb i sylwadau a oedd yn gwbl annerbyniol.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor fod yr Ymddiriedolaeth yn dal i ystyried y mater.

Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC) OFCOM

Cyfeiriodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol at gynigion Cam 2 Adolygiad DGC OFCOM gan ddweud eu bod yn debyg iawn i'r rhai a ryddhawyd yn y ddogfen gychwynnol a bod y farn a fynegwyd gan y Cyngor gynt, felly, yr un mor berthnasol i'r cynigion diweddaraf. Roedd gwaith sylweddol yn cael ei wneud ar ymateb y BBC a'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cyngor i'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol gadw mewn cof unrhyw effaith y gallai'r cynigion yng Ngham 2 Adolygiad DGC OFCOM ei chael yng Nghymru. Atgoffodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor fod Gweinidog Treftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu pwyllgor cynghori y gofynnwyd iddo adrodd erbyn mis Rhagfyr. Yr aelodau arno oedd Huw Jones, Geraint Talfan Davies, Kevin Morgan a Julie Barton. Hysbysodd y Cyngor ei bod wedi cael rhai sgyrsiau preifat gyda rhai o aelodau'r grŵp a'u bod wedi cwrdd yn ffurfiol â Rheolwr BBC Cymru Wales. Briff y grŵp yn ei hanfod oedd ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth teledu DGC cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

Cyfleodd Pennaeth Llywodraeth ac Atebolrwydd Cymru ddiolch Dirprwy Bennaeth Uned yr Ymddiriedolaeth i'r Cyngor am ei letygarwch yn y cyfarfod blaenorol a dywedodd ei fod wedi gwerthfawrogi sylwadau'r Cyngor a'i gyfraniad i'r drafodaeth ynglŷn ag adolygiad DGC Ofcom.

Blogiau Gohebwyr

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor fod yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei briffio'n ddiweddar ar y ffordd yr oedd y BBC wedi ymdrin â'r sefyllfa ariannol yn y DU a'r tu hwnt, gan gynnwys blogiau gohebwyr y BBC. Dywedodd wrth y Cyngor y rhoddwyd sicrwydd i'r Ymddiriedolaeth fod pob blog yn ddarostyngedig i Ganllawiau Golygyddol arferol y BBC.

DAB
Gan gyfeirio at DAB, dywedodd fod penderfyniad Channel 4 i dynnu'n ôl o DAB wedi bod yn ergyd i'r cyfrwng a bod y sefyllfa'n edrych yn gynyddol gymhleth.

Adolygu'r Ffordd y Casglir Ffi'r Drwydded
Holodd y Cyngor yngl□n â'r adolygiad o'r ffordd y casglir ffi'r drwydded. Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol fod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn, mai'r dyddiad cau o ran derbyn sylwadau oedd 28ain Tachwedd, a bod y dystiolaeth a ddaeth i law eisoes yn ddiddorol. Anogodd aelodau'r Cyngor i wneud yr adolygiad yn hysbys.

Blaenoriaethau o ran Cynulleidfaoedd 2009-10
Trafododd y Cyngor Flaenoriaethau posibl o ran Cynulleidfaoedd ar gyfer 2009-10 a phenderfynodd ar y canlynol i'w cyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC:

- Y dylai'r ffordd y caiff cynigion rheoli'r BBC o ran delio â'r materion a godir yn yr Adolygiad Diddueddrwydd o'r ymdriniaeth Newyddion a Materion Cyfoes o faterion datganoledig gael ei monitro'n ofalus gan Ymddiriedolaeth y BBC.
- Y dylid monitro bod argymhellion yr Adolygiad Cyflenwad Rhwydwaith o'r rhaglenni Rhwydwaith a gomisiynir o'r tu allan i Lundain, a gwblhawyd gan reolwyr y BBC yn 2008, yn cael eu gweithredu'n llawn i sicrhau y cânt eu cyflawni o fewn yr amserlen a roddwyd.
- Y dylai'r BBC, o fewn y cyfyngiadau sydd arno, sicrhau bod mynediad i orsafoedd radio cenedlaethol Cymru, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales, yn cael ei ddarparu i bawb ar DAB ac FM ar draws Cymru gyfan.
- Y dylai'r portread o Gymru a rhannau eraill o'r DU y tu allan i'r M25, mewn rhaglenni Rhwydwaith, gael ei wella'n sylweddol i sicrhau bod y wlad gyfan yn cael ei chynrychioli ar draws ystod rhaglenni'r BBC.
- Y dylai'r Ymddiriedolaeth roi sylw i gomisiynu cerddoriaeth a sain o'r tu allan i Lundain i sicrhau ei fod yn lledaenu ar draws y wlad mewn ffordd sy'n adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth yn y DU.

Ymunodd y rheolwyr â'r cyfarfod

78. Y COFNODION A'R MATERION YN CODI

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir. Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd y Cyngor fod cynigion wedi cael eu derbyn erbyn hyn i fonitro canlyniad yr adolygiad diddueddrwydd o Newyddion Rhwydwaith ac y câi'r rhain eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor yn fuan.

Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd y Cyngor hefyd fod yr adolygiad o'r gwasanaethau i bobl ifanc yn wir yn ehangach na'r gwasanaethau unigol y cyfeiriwyd atynt.

79. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol – Dywedodd mai'r ddau fater allweddol a ystyriwyd yn ddiweddar oedd adolygiad DGC Ofcom a Brand/Ross yn torri'r canllawiau golygyddol ar Radio 2. Llongyfarchodd Reolwr Cymru hefyd ar gael ei dyrchafu i fod yn un o Gyfarwyddwyr y BBC a dywedodd fod y newidiadau strwythurol yn arwyddocaol.

Rheolwr Cymru – Hysbysodd y Cyngor ei bod wedi cwrdd â thasglu'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried y ddarpariaeth teledu DGC yng Nghymru.

Hysbysodd y Cyngor y byddai Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC yn cwrdd â Gweinidog Treftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fuan.

Hysbysodd y Cyngor fod Jay Hunt, Rheolwr BBC One, wedi ymweld â Chaerdydd yn ddiweddar ac wedi rhoi cyflwyniad dadlennol. Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd y Cyngor fod Rheolwr BBC One wedi cael gwahoddiad i ddod i un o gyfarfodydd y Cyngor Cynulleidfa yn y dyfodol.

Adroddiad y Bwrdd - Hysbysodd y Pennaeth Datblygu Darlledu'r Cyngor fod y cyfnod *Here for You* yn Wrecsam wedi ennyn lefel uchel o ddiddordeb ac ymwelwyr ac iddynt ystod oedran eang. Mynegwyd diddordeb gwirioneddol mewn datblygiadau technolegol newydd a deunyddiau'n gysylltiedig â *Coal House at War*.

Hysbysodd y Cyngor fod ffigurau diweddaraf RAJAR wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer Radio Wales ac er bod y cwmpas wedi crebachu, roedd y gyfran wedi cynyddu. Roedd gwaith pellach yn cael ei wneud i edrych ar y sefyllfa flwyddyn ar ôl cyflwyno newidiadau i amserlen Radio Wales. Canmolodd y Cyngor y cysondeb o ran cyflwynwyr ar raglenni newyddion bore a min nos Radio Wales.

Hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd y Cyngor fod cynnyrch Radio Cymru ar gael ar iPlayer bellach.

Mynegodd y Cyngor ganmoliaeth uchel i'r sylw a roddwyd gan newyddiadurwyr o Gymru, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, i etholiad Arlywyddol UDA. Roeddent wedi cyflwyno persbectif gwahanol ar y digwyddiad. Canmolodd y Cyngor yn arbennig raglen Dewi Llwyd yn teithio ar draws UDA o Gaerdydd ar Arfordir y Môr Tawel i Fangor ym Mhennsylvania. Roedd yn rhaglen ragorol a oedd wedi rhoi golwg newydd ar faterion perthnasol i etholiad Arlywyddol yr UD, ond mynegwyd siom fod y ffigurau gwylio wedi bod yn gymharol isel – o bosibl oherwydd yr amser o fewn amserlen S4C pryd y darlledwyd y rhaglenni.

Holodd y Cyngor y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg ynglŷn â'r sylw i'r gêm bêl-droed rhwng Cymru a'r Almaen, a ddarlledwyd ar BBC Wales a BBC Three, gyda'r ddau wasanaeth yn defnyddio sylwebyddion gwahanol, gan awgrymu nad oedd hyn yn cynrychioli gwerth da am arian i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded. Ymatebodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg drwy ddweud yr awgrymwyd y gellid defnyddio sylwebyddion Cymru, ond na fanteisiwyd ar hynny.

Dywedodd y Cyngor fod colli'r hawliau i ddarlledu cystadleuaeth rygbi Cwpan Heineken wedi bod yn siom enfawr yng Nghymru. Gofynnodd y Cyngor am i Bennaeth Chwaraeon y BBC gael ei wahodd i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol fel y gellid trafod hyn a materion eraill gyda ef.

GWEITHREDU: HoG&AW

Cyhoeddiad ar Gomisiynu Teledu Rhwydwaith y tu allan i Lundain: Cynllunio ar gyfer Twf Creadigol. Cyflwyniad gan y Pennaeth Rhaglenni Saesneg

Y penawdau allweddol oedd:
- y byddai'r buddsoddi yng Nghymru yn dyblu erbyn 2016
- *Crimewatch* i symud i Gymru a *Casualty* o bosibl i symud i Gymru
- Twf ychwanegol mewn rhaglenni Ffeithiol ac mewn Drama
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer Drama

Gan gyfeirio at Ddrama Teledu Rhwydwaith, dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Saesneg fod argraff erbyn hyn fod Cymru'n tyfu ar sail llwyddiannau'r gorffennol a'r presennol a bod rhaglenni fel *Pobol y Cwm* a *Belonging* wedi hybu doniau i dyfu. Byddai dyfodiad *Casualty* yn creu sylfaen gynaliadwy gydol y flwyddyn i ddrama yng Nghymru, a gallai fod yn fodd i weithredu drwy bentref drama, gyda chyfleoedd i ddatblygu dramâu eraill. Câi penderfyniad ei wneud o fewn y misoedd nesaf pa un i symud *Casualty* i Gymru a byddai gwerth am arian yn ffactor allweddol.

Roedd rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth hefyd yn tyfu ar sail llwyddiannau'r gorffennol megis *Tribe*, *The Museum* a *Young Musician Of The Year*. Roedd symud *Crimewatch* i Gymru hefyd yn pwysleisio cryfder Cymru ym maes newyddiaduriaeth boblogaidd ymysg rhaglenni fel *X Ray* a *The One Show*.

Byddai cyfleoedd ar gael hefyd i ddatblygu cyfresi eraill a ffilmiau unigol ar draws y pedwar rhwydwaith teledu yn cynnwys teledu dydd a BBC 3. Roedd yr uno a greodd yr Adran Ffeithiol a Cherddoriaeth wedi darparu tîm creadigol, traws-genre, traws-blatfform. Hefyd, hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni Saesneg y Cyngor fod yr Adran Cyfryngau Newydd eisoes yn cael ei hystyried fel adran sy'n cynhyrchu gwaith sy'n torri tir newydd oherwydd ei hymwneud â *Doctor Who*, *The Sarah Jane Adventures* a *Merlin*. Er nad oedd targedau twf pendant hyd yma, roedd yr Adran wedi mynegi diddordeb i ddatblygu 'cynnyrch' amlgyfrwng newydd.

Byddai cyfleoedd yn codi i'r sector annibynnol hefyd yn sgil yr Adolygiad o'r Cyflenwad Rhwydwaith – roedd *Amazon* gyda Bruce Parry a *Rivers* gyda Griff Rhys Jones yn dangos llwyddiannau ffeithiol i'r sector annibynnol yn y gorffennol. Roedd y rhaglenni hyn yn dod o fewn meini prawf Ofcom o ran bod y tu allan i Lundain ac roeddent yn wir wedi cael eu gwneud yng Nghymru. Roedd llawer o weithgarwch yn gysylltiedig â'r sector annibynnol a'r peth pwysig oedd bod y storïau da yngl□n â'r sector annibynnol sy'n deillio o'r Adolygiad o'r Cyflenwad Rhwydwaith yn cael eu clywed.

Yn y gorffennol, roedd y gwariant cynhyrchu wedi cael ei ganoli ar Lundain – ond yn y dyfodol byddai 50% o'r gwariant y tu allan i Lundain. Roedd llwyddiannau Cymru yn y gorffennol wedi darparu platfform ar gyfer y dyfodol ond roedd angen parhau o hyd i ddod o hyd i storïau rhagorol, ysgrifenwyr arbennig a doniau mawr er mwyn gwireddu'r nod hwn ac roedd angen edrych o'r newydd ar y ffordd y caiff Cymru ei phortreadu.

Ymysg y sialensiau eraill roedd y ffaith fod y llinynnau presennol yn amharod i symud, ac roedd angen llawer o waith i ddatblygu cysylltiadau. Bu'r ymateb yn Rhanbarthau Lloegr y BBC yn negyddol i'r Adolygiad o'r Cyflenwad Rhwydwaith gan fod teimlad fod y Gwledydd a Salford wedi elwa'n anghymesur. Roedd angen dal y ddysgl yn wastad o hyd rhwng dyheadau mewnol a dyheadau annibynnol yng Nghymru er mwyn sicrhau'r

canlyniad gorau ac roedd angen hefyd am bartneriaethau a chefnogaeth o'r naill du a'r llall.

Gofynnodd y Cyngor a oedd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu yn gefn i'r datblygiad hwn. Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Saesneg y byddai adnoddau pellach yn cael eu darparu ond y byddai'r hinsawdd economaidd bresennol yn effeithio ar y BBC fel ag ar bob sector economaidd arall.

Hysbyswyd y Cyngor fod gwaith sylweddol yn cael ei wneud i sicrhau y byddai'r gwariant sy'n deillio o'r Adolygiad o'r Cyflenwad Rhwydwaith yn cynyddu'n gyson ac na fyddai'n neidio i fyny ac i lawr. Mynegodd y Cyngor ei bryder mai 5% fyddai ISAFSWM y gwariant yng Nghymru.

80. CYFLWYNIAD GAN Y PENNAETH NEWYDDION A MATERION CYFOES

Hysbysodd y **Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes** y Cyngor ei fod yn gyfrifol am 270 o staff sy'n cynhyrchu deunydd ar gyfer tri phlatfform. Dechreuodd ei gyflwyniad drwy ddangos enghreifftiau i'r Cyngor o ddeunydd Newyddion a Materion Cyfoes.

Hysbysodd y Cyngor am yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan *Week in Week out* i hylendid cig – gwaith a arweiniodd at ymchwiliad gan y Gwasanaeth Hylendid Cig.

Gan gyfeirio at y sylw a roddwyd i etholiadau Arlywyddol UDA, hysbysodd y Cyngor fod y ddarpariaeth Gymraeg hefyd wedi arwain at gynnyrch Saesneg ar raglenni fel *Wales Today*. Bu'n eithriadol o gost effeithiol gan fod Owain Clark wedi saethu a golygu ei holl ddeunydd ei hun ac wedi anfon y deunydd fideo yn ôl i Gymru dros y rhyngrwyd gan arbed ar gostau lloeren.

Dywedodd y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes hefyd fod sylw reit drwyadl yn cael ei roi i'r wasgfa gredyd a bod hynny ysgogi lefel sylweddol o drafodaeth.

A throi at *BBC Lleol* dywedodd wrth y Cyngor fod canlyniad y Prawf Gwerth Cyhoeddus i'w ddisgwyl yn y mis nesaf. Roedd peth gwaith paratoi eisoes wedi cael ei wneud gyda chynlluniau peilot ar wefan gogledd-ddwyrain Cymru. Roedd storïau â gogwydd lleol ond o ddiddordeb ehangach wedi bod yn llwyddiannus – e.e. awdurdodau lleol yn diffodd lampau stryd oherwydd eu setliad ariannol, a gorymdaith Sul y Cofio yng Nghefnbychan.

Byddai *BBC Lleol* yn cynnig gwasanaeth rhanbarthol, yn hytrach na gwasanaeth lleol cul. Byddai ardal BBC Lleol yn cwmpasu ardaloedd cylchrediad sawl papur newydd lleol ac nid yn unig y byddent yn cynnig cysylltiadau â phapurau newydd lleol ond byddent hefyd yn darparu deunydd a hyfforddiant am ddim i newyddiadurwyr y papurau hyn.

Adolygiad Diweddarwydd Newyddion Rhwydwaith Ymddiriedolaeth y BBC – Amlinellodd y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes y gweithredu a oedd yn mynd rhagddo i ymdrin â rhai o'r materion a godwyd, yn cynnwys:

- Diwrnodau Storïau Mawr – diwrnodau penodol pan fyddid yn edrych ar faterion mewn mwy o ddyfnder ar draws y DU
- Y rhwydwaith a chlystyrau'r gwledydd – cyfarfod misol o ohebwyr arbenigol
- Lleoliadau – staff o Lundain yn dod i Gymru a staff o Gymru'n mynd i Lundain
- Hyfforddiant (gweithdai arweinwyr golygyddol)
- Penodi gorfodwr datganoli

Ers cyhoeddi'r adroddiad diddueddrwydd, roedd tua 70 o storïau o Gymru (mwy na dwbl y nifer dros gyfnod tebyg yn y gorffennol) wedi ymddangos ar y Newyddion Rhwydwaith e.e. dathlu blwyddyn o glymblaid 'Cymru'n Un', a chyfarfod cyntaf Confensiwn Cymru Gyfan. Dywedodd hefyd fod y labelu ar storïau i ddynodi eu perthnasedd i'r gwahanol wledydd wedi gwella llawer iawn ond roedd yn dal yn bwysig cadw llygad ar y mater hwn a byddai'n bwysig ei adolygu ymhen blwyddyn.

Gofynnodd y Cyngor a oedd y gyfran o storïau o Gymru a oedd wedi cynyddu yn cynnwys rhaglenni fel *Today* a *Newsnight*? Cadarnhaodd y Pennaeth Newyddion fod y rhaglenni hyn yn gynwysedig.

Cymeradwyodd y Cyngor y gwelliannau yn y labelu – ond dywedodd hefyd fod y ffordd hon o weithredu yn dal i adael gwactod ac nad yw'r sefyllfa mewn rhannau eraill o'r DU yn cael ei hegluro. Cytunai'r Pennaeth Newyddion, ond dywedodd fod y Newyddion Rhwydwaith yn gynyddol yn rhoi sylw i'r pedair gwlad.

81. ADOLYGIAD PERFFORMIAD 2008-09 BBC CYMRU WALES

Dywedodd Rheolwr Cymru fod mesurau cymeradwyo yn dangos cymeradwyaeth y cyhoedd o'r hyn yr oedd y BBC yn ei wneud a bod y bwlch rhwng cymeradwyaeth i'r BBC a BBC Wales yn llai nag erioed o'r blaen erbyn hyn. Cymeradwyaeth i ffi'r drwydded oedd y mesur isaf yng Nghymru o hyd, ond yr oedd yn uwch nag y bu yn y gorffennol. Roedd cymeradwyaeth i BBC Wales wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Gan ymdrin â chyd-destun y farchnad, dywedodd Rheolwr Cymru mai dim ond misoedd sydd tan y newid i'r digidol ac mai Cymru fyddai'r genedl gyntaf ddigidol-yn-unig ymhen 18 mis. Erbyn hyn roedd gan 90% o bobl Cymru deledu digidol, y gyfran uchaf o hyd o blith pedair gwlad y DU.

BBC One oedd y sianel fwyaf poblogaidd yng Nghymru o hyd ac roedd cyrraedd y BBC yng Nghymru yn dal yn 85% (roedd cyrraedd ITV 1 yng Nghymru yn 71%). Roedd *Wales Today* hefyd yn dal yn bwysig iawn o ran cynhyrchu cynulleidfaoedd i BBC Wales. Roedd chwaraeon hefyd yn dal yn bwysig ac roedd y sylw a roddwyd i'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd wedi bod yn sylweddol.

Cynnyrch BBC Wales ar BBC One – Y nod oedd gwella'r Gyfran Rhwydwaith, ennill cynulleidfaoedd mawr a mynegai gwerthfawrogi uchel, yn ogystal â pherfformiad da o fewn ystod oedran neilltuol e.e. roedd *Not in My Nature* wedi perfformio'n dda iawn gyda'r grŵp oedran targed 45-64.

Cynnyrch BBC Wales ar BBC Two a 2W – Roedd digwyddiadau'n bwysig ar BBC Two e.e. Sioe Frenhinol Cymru. Cyfrannodd rhaglenni BBC Wales ar BBC One a Two +0.5 pwynt at y Gyfran Rhwydwaith.

S4C – *Pobol y Cwm* yw'r rhan fwyaf poblogaidd o bell ffordd o amserlen amser brig S4C. Roedd *Newyddion* yn dal i gynyddu ei ffigurau gwylio. Roedd *Mosgito* wedi sefydlu'i hun yn dda yn amserlen min nos S4C. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, cynyrchiadau gan y BBC oedd pob un o 20 rhaglen fwyaf poblogaidd S4C.

Teledu a Radio Rhwydwaith – Roedd *Doctor Who* yn dal yn boblogaidd ac yn denu cynulleidfaoedd mawr. Roedd *Torchwood* wedi cyfnerthu ei safle'n dda ar BBC Two a byddai'n symud i BBC One yn 2009. Bu *Young Musician of the Year* yn llwyddiant ac felly hefyd *Amazon* gyda Bruce Parry, a wnaed gan Indus.

Radio – roedd dramâu cryf wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer Radio 4 yn cynnwys pennod o *Torchwood* a ysgrifennwyd yn arbennig i gyd-fynd â throi'r peiriant gwrthdrawiadau mawr Hadron ymlaen yn CERN yn Geneva. Roedd comisiwn pellach am gyfres *Torchwood* ar gyfer Radio 4 wedi dod i law. Roedd gwaith yn parhau ar raglenni ar gyfer Radio 3 yn ogystal â Huw Stephens a Bethan Elfyn a oedd yn dal i ddarlledu *BBC Introducing* … ar Radio 1.

BBC Radio Wales – roedd teyrngarwch y gwrandawyr yn gwella ac roedd proffil oedran yr orsaf yn newid yn raddol. Roedd amserlen newydd ar y Sul yn helpu yn hyn o beth – mae'n cynnwys *Good Morning Wales* ar fore Sul ac yna *Ruth Jones' Sunday brunch* rhwng 10am a 12 hanner dydd.

Radio Cymru – Dywedodd y Rheolwr ei bod yn rhy gynnar i farnu'r orsaf yn dilyn y newidiadau i'r amserlen yn ddiweddar.

Cyfryngau Newydd yng Nghymru – Parhaodd gwefannau Cymraeg a Saesneg BBC Cymru Wales i dyfu a bod yn boblogaidd. Cafodd ail-lansio tudalennau */wales* a */cymru* effaith gadarnhaol ac atgoffwyd aelodau'r Cyngor fod rhyngwyneb Cymraeg yn rhan o iPlayer erbyn hyn a'i fod yn cynnwys cynnyrch Cymraeg y BBC.

Roedd gwefan newydd *Torchwood* wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn enwedig oherwydd y cynnwys gemau newydd. Roedd gwefan yr *Eisteddfod Genedlaethol* wedi galluogi defnyddwyr i deilwrio'r lefel o gynnwys Cymraeg a Saesneg i weddu i'w hanghenion penodol eu hunain. Roedd gan y safle 11,000 o ddefnyddwyr unigryw ac roedd ffrydio fideo wedi bod yn boblogaidd iawn gyda 22,000 o geisiadau fideo y dydd ar gyfartaledd.

Gofynnodd y Cyngor sut yr oedd y data a gâi ei gyflwyno yn cael ei ddefnyddio i ddangos sut yr oedd Pwrpasau Cyhoeddus y BBC yn cael eu cyflawni? Ymatebodd y Rheolwr drwy ddweud nad oes fframwaith ffurfiol i wneud hyn, ond bod cysylltiad amlwg rhwng y data a gyflwynir â Phwrpasau'r BBC.

Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd y Cyngor fod Uned yr Ymddiriedolaeth yn gwneud gwaith ar hyn ac y byddai'r Cyngor yn cael cyflwyniad ar y fframwaith hwn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr.

82. CYFLWYNIAD AR WAITH MAES A GWAITH ADDYSG CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC.

Hysbysodd y **Rheolwr Addysg a Chymunedol, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC** y Cyngor fod gan y Gerddorfa rôl genedlaethol. Hi yw'r unig gerddorfa symffoni broffesiynol yng Nghymru ac mae'n adnabyddus nid yn unig am ei pherfformiadau ond hefyd am ei pherthynas â chymunedau ar draws Cymru. Câi perfformiadau'r gerddorfa eu darlledu ar Radio 3, Radio Wales a Radio Cymru yn ogystal ag ar BBC Wales a Theledu Rhwydwaith – e.e. y Proms.

Roedd y gerddorfa'n cyfrannu i'r Eisteddfod Genedlaethol a digwyddiadau cerddoriaeth lleol, ac yn teithio, gan weithredu fel llysgennad i Gymru dramor – megis y daith i UDA yn 2007 a'r daith yn Sbaen sydd wedi'i threfnu ar gyfer 2009.

Mae'r gerddorfa hefyd yn recordio traciau sain ar gyfer rhaglenni fel *Doctor Who* ac yn recordio CDs masnachol.

Mae hefyd yn cynnal gwersi cerddoriaeth ac yn darparu cyngherddau ysgol i ddisgyblion gan roi blas a chipolwg iddynt ar fywydau cerddorion proffesiynol a'u cyflwyno i brofiadau cerddorol bythgofiadwy.

Roedd y gerddorfa hefyd mewn partneriaeth â Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru gyda'r nod o annog cerddorion y dyfodol a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae hefyd yn cydweithredu â sefydliadau addysg uwch Cymru. Mae addysg, darparu gwybodaeth a difyrru wrth galon yr hyn a wna'r gerddorfa.

Roedd Corwen a Rhydaman yn ddwy dref lle'r oedd y gerddorfa wedi cynnal cyfnod preswyl a greodd argraff barhaol. Roedd yn cydweithredu hefyd â'r adran Datblygu Darlledu yn ystod ymweliadau *Here for You*.

Roedd y Gerddorfa wedi cyfrannu hefyd at sesiynau i annog cerddorion amatur i ailafael yn eu hofferynnau ac roedd sesiynau'n cael eu trefnu i annog canu.

Hysbysodd y Cyngor y byddai'r cerddorfa'n canolbwyntio'n helaeth yr hydref hwn ar weithio gyda phobl ag anghenion arbennig. Roedd dau gyngerdd yn cael eu cynnal dros y misoedd i ddod. Roedd cyngherddau o'r math hwn yn y gorffennol wedi dangos grym cerddoriaeth i gyffwrdd â phobl yn ddwfn.

Gan gyfeirio at gartref newydd y gerddorfa yng Nghanolfan Mileniwm Cymru - Neuadd Hoddinott – hysbyswyd y Cyngor y byddai'n cael ei hagor yn swyddogol ym mis Ionawr 2009. Byddai'n gwneud gwahaniaeth enfawr i waith y gerddorfa ac yn galluogi'r gerddorfa a'r corws i ymarfer gyda'i gilydd. Roedd stiwdio Grace Williams yn rhan o'r neuadd a byddai'n darparu gofod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith maes a gwaith addysg.

83 MATERION BLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Penderfynodd y Cyngor mae'r Blaenoriaethau o ran Cynulleidfaoedd fyddai ei fater blaenoriaeth i Ymddiriedolaeth y BBC.

84. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai ei gyfarfod nesaf ar 5ed Rhagfyr yn Nh Darlledu'r BBC, Caerdydd, ac y câi cinio preifat i'r cyngor ei gynnal fin nos y 4ydd Rhagfyr.